**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Medi 2012**

**Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Argymell bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau yn ffurfiol.

## Cyflwyniad

2 Fe wnaeth adolygiad o Safonau Gwasanaeth i Danau yn y Cartref 2006 arwain Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull gwahanol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Tân ac Achub (ATA) ddatblygu eu meini prawf eu hunain ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau, ac i ymgynghori'n lleol arnynt, yn amodol ar un gyfres o '*egwyddorion arweiniol* a roddir gan Lywodraeth Cymru.

3 Gwelid bod y dull gwahanol hwn yn ateb yr anhawster sy'n codi o ganlyniad i'r ffaith fod gwahanol broffiliau (e.e. trefol/gwledig a chysylltiadau ffyrdd) yn ardaloedd y tri ATA, a bod hynny'n effeithio ar y modd y cyfrifir un safon sengl ar gyfer Cymru gyfan.

4 Mae un o'r Cylchlythyrau Tân ac Achub a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012 yn datgan:

*Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ATA yng Nghymru wella diogelwch y cyhoedd trwy ostwng nifer yr achosion o farwolaeth, anafiadau a thanau damweiniol o fewn anheddau domestig, ac ar yr un pryd yn lleihau anafiadau i ddiffoddwyr tân wrth eu gwaith. Bydd yr Egwyddorion Arweiniol yn rhoi cymorth i'r ATAau i gyflawni eu dyletswyddau statudol, ac ar yr un pryd yn cydnabod y gwahaniaethau sydd rhwng ardaloedd yr Awdurdodau.*

5 Datgelodd ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar y dull gwahanol yn ystod 2010-11 fod cefnogaeth gyffredinol iddo, a nodi ei fod yn gosod yr atebolrwydd yn fwy eglur gyda'r ATAau.

6 Roedd un ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cydnabod nad oedd Safon Gwasanaeth 2006 yn effeithiol, ond er hynny, yn gresynu bod un safon ar gyfer Cymru gyfan yn mynd.

7 Fel yr adroddwyd i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16$^{eg}$ Gorffennaf 2012, cyd-luniodd swyddogion o'r tri gwasanaeth tân ac achub 'Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan', ac fe'i cefnogwyd gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) yn ei gyfarfod cyntaf yng Ngorffennaf 2012.

## Gwybodaeth

8 Mae'r Siarter (Atodiad 1) yn cymryd ystyriaeth o'r gofynion bod yr ATAau yn cynllunio eu meini prawf ymateb lleol ac yn ymgynghori arnynt, ond hefyd yn manteisio ar y cyfle i sicrhau lefel o gysondeb trwy Gymru.

9 Bwriad y Siarter yw rhoi darlun clir i drigolion a phreswylwyr yng Nghymru o'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub, ond heb lesteirio dewis yr ATAau i benderfynu ar yr hyn sy'n briodol yn eu hardaloedd eu hunain o ran gosod ei feini prawf ymateb lleol.

10 Mae'r Cylchlythyr Tân ac Achub a gyhoeddwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ATA osod eu meini prawf ymateb lleol yn seiliedig ar yr Egwyddorion Arweiniol. Felly, mater i bob ATA fyddai'r safonau perfformiad, y mesurau a'r dangosyddion penodol, a hynny yn ôl ei brosesau ei hun ar gyfer datblygu ac ymgynghori.

11 Mae'r Siarter ddrafft yn mynd i'r afael â'r bedair agwedd ar yr egwyddorion arweiniol: sef tanau mewn anheddau; anafiadau a marwolaethau oherwydd tanau mewn anheddau; diogelwch diffoddwyr tân; a chymhwysedd gweithredol diffoddwyr tân.

12 Byddai'r union feini prawf ymateb i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod (yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru) yn cael ei ddatblygu trwy brosesau arferol yr Awdurdod ar gyfer cynllunio i wella.

**Argymhelliad**

13 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau.